**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 27 Gorffennaf 2023 am 2.30 pm**

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Steve Hunt | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Alun Lenny | Cyngor Sir Gar |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |
| Rob Stewart | Cyngor Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Steven TO Aldred-Jones | Cyngor Sir Gâr |
| Jason Blewitt | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Dros Dro (Cyngor Sir Penfro) |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Samantha Cutlan | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Matthew Holder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Gareth Jones | Seilwaith Digidol (Dinas-Ranbarth Bae Abertawe) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Allison Lowe | Cyngor Abertawe |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Debbie Smith | Dirprwy Swyddog Monitro (Cyngor Abertawe) |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr) Darren Price (Cyngor Sir Gar)

Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), Paul Boyle (Prifysgol Abertawe) a/ac Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)

William Bramble (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Penfro)) a/ac Tracey Meredith (Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe))

**1 Ethol Cadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas Ranbarth Bae Abertawe.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Bu'r Cynghorydd RC Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu**

**2 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 11 Mai 2023 fel cofnod cywir.

**4 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

**5 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**6 Adroddiad Argymhellion Archwilio Mewnol 2022-23. (Matthew Holder)**

Cyflwynodd Matthew Holder, Bargen Ddinesig Bae Abertawe, adroddiad er mwyn ystyried a chymeradwyo canfyddiadau a chamau gweithredu adolygiad Archwilio Mewnol 2022-23 ym Mhortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA).

**Penderfynwyd** y byddai Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe'n cymeradwyo canfyddiadau a chamau gweithredu adolygiad Archwilio Mewnol 2022-23 ym Mhortffolio BDdBA.

**7 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 2023.**

Amlinellodd Jason Blewitt, Swyddfa Archwilio Cymru, y cynllun a'r cwmpas mewn perthynas â'r archwiliad allanol a amlinellwyd yn Atodiad A a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o Ddatganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2022/23.

**Penderfynwyd** y byddai Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n cymeradwyo'r cynllun a gynigiwyd a chwmpas yr archwiliad allanol a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2022/23.

**8 Diweddariad y Rhaglen Sgiliau a Thalent. (Er Gwybodaeth - Jane Lewis/Sam Cutlan)**

Cyflwynodd Samantha Cutlan adroddiad "er gwybodaeth" a chyflwyniad i gyd-fynd ag ef er mwyn hysbysu Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe ynghylch y cynnydd a wnaed a statws y fenter Sgiliau a Thalent.

**9 Diweddariad y Rhaglen Isadeiledd Digidol. (Er Gwybodaeth - Gareth Jones)**

Cyflwynodd Gareth Jones adroddiad "er gwybodaeth" a chyflwyniad i gyd-fynd ag ef er mwyn hysbysu Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe ynghylch y cynnydd a wnaed a statws Rhaglen Isadeiledd Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**10 Monitro Portffolio Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe. (Er Gwybodaeth)**

Darparodd Jonathan Burnes, Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe, adroddiad "er gwybodaeth" i hysbysu Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe ynghylch Adroddiad Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

**11 Monitro Ariannol Chwarterol Ch4 2022/23 - Sefyllfa'r Alldro Terfynol.**

Cyflwynodd Chris Moore, Swyddog Adran 151 Steven TO Aldred-Jones, a oedd wedi cymryd lle Richard Arnold fel Rheolwr Cyllid Rhanbarthol y Pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad i ddarparu gwybodaeth ynghylch y sefyllfa alldro terfynol ar gyfer 2022/23 Dinas-Ranbarth Bae Abertawe i Gyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** y byddai Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n cymeradwyo'r sefyllfa alldro terfynol ar gyfer 2022/23.

**12 Datganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Chris Moore, Swyddog Adran 151, gyflwyniad er mwyn darparu Datganiad o Gyfrifon Blynyddol y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2022/23 i Gyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, fel y'i hamlinellwyd yn Atodiad A ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** y byddai Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon Cyn Archwilio Blynyddol.

**13 Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Jonathan Burnes, Bargen Ddinesig Bae Abertawe adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth oddi wrth Gyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe ar fersiwn derfynol Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe mis Ebrill 2022-mis Mawrth 2023 fel y'i hamlinellir yn Atodiad A ar ran Heidi Harris.

**Penderfynwyd** y byddai Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2022-2023.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.06 pm

**Cadeirydd**